

DYDD MERCHER, 1 RHAGFYR 2021

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYSBU
CYFARFOD RHITHWIR O'R CYNGOR SIR A GYNHELIR AM **10.00 YB**,
DYDD MERCHER, 8 RHAGFYR, 2021 ER MWYN CYFLAWNI'R
MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	Janine Owen
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224030
E-bost:	JanineOwen@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y
CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y 10 TACHWEDD 2021 5 - 14
5. YCHWANEGIAD AT GYTUNDEB RHYNG-AWDURDODAU (IAA)
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (WPP) 15 - 28
6. CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION A PHROTOCOL AR GYFER
CYFLWYNO SYLWADAU I'R CYNGOR SIR YNGHYLCH CEISIADAU
CYNLLUNIO 29 - 126
7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION
CYNLYNOL:-
 - 7.1 ADFER MYNEDIAD CYHOEDDUS YN GILFACH IAGO 127 - 136
8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWDYD AR:-
 - 8.1 8 TACHWEDD 2021 137 - 142
 - 8.2 22 TACHWEDD 2021 143 - 148
9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
 - 9.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD
JOHN JAMES

Bod y Cyngor hwn yn:

- 1) Cydnabod ymdrech fawr a phroffesiynoldeb Heddlu Dyfed Powys wrth gyflawni ei ddyletswyddau.
- 2) Cydnabod pa mor bwysig yw galwadau gan aelodau o'r cyhoedd o ran cynorthwyo'r Heddlu drwy roi gwybod am ddigwyddiadau a rhoi gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn.
- 3) Nodi bod trigolion Sir Gaerfyrddin yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar y system galwadau 101 o ran adrodd oherwydd oedi hir wrth ateb.

Felly mae'r Cyngor yn:

Gofyn yn barchus i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys drefnu i ailwampio'r system galwadau 101 a fydd yn adennill hyder trigolion Sir Gaerfyrddin wrth ddefnyddio'r system hon, a fydd yn ei dro yn rhoi darlun mwy cywir o ystadegau sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn.

10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

11. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

11.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD GARY JONES I'R CYNGHORYDD ALUN LENNY, CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

“O ystyried y fenter wych gan Gyngor Sir Caerfyrddin o ran gweithio ar strategaeth newydd i ddatblygu nodweddion a mannau awyr agored naturiol, a ellir herio ceisiadau cynllunio ar y CDLI presennol a'r CDLI arfaethedig drwy'r strategaeth hon? Os felly, oni ddylai hyn fod ar frig unrhyw ystyriaethau pan ddaw ceisiadau cynllunio i law, ynghyd â barn trigolion am gadw mannau Gwyrdd yn eu bro?”

11.2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD GARY JONES I'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS, YR AELOD CABINET DROS YR AMGYLCHEDD

“Des i o hyd i'r blwch nwy hwn wrth gasglu sbwriel yn y pentref. Does dim gwybodaeth ar y botel ynghylch ble i'w dychwelyd, felly archebais slot yn Nhrostre. Roeddwn yn gwybod y byddai tâl ond cefais fy syfrdanu gan y tâl o £20. Bydd hyn yn annog pobl i beidio â'u dychwelyd yma a bydd yn atal pobl rhag ailgylchu. Deallaf fod 'Cwm Environmental' yn gwmni annibynnol, ond a allwn ddylanwadu arno mewn unrhyw ffordd i ddiwygio hyn, a chodi tâl mewn enw?”

12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

12.1 PWYLLGOR PENODI B - 4 TACHWEDD 2021

12.2 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 11 TACHWEDD 2021

12.3 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 23 TACHWEDD 2021